Cinio Gŵyl Ddewi'r Gymdeithas Ddeintyddol

Nos Sadwrn, Mawrth 8, 2014, yn ôl ein harfer blynyddol, daeth nifer dda ynghyd i ddathlu gŵyl ein nawddsant. Eleni, yn Neuadd Reichel, Bangor, y cynhaliwyd y wledd ac wedi i'r gwesteion gymryd eu lle o gylch y byrddau crynion a ddarparwyd ar ein cyfer, croesawyd pawb i'r cinio gan y Cadeirydd, Dr Stephen J. Keen, Cadeirydd y Gymdeithas.

Yn dilyn y cinio, roedd gwledd arall wedi'i pharatoi ar ein cyfer – ac ni ellid bod wedi cael ei gwell. Roedd Pwyllgor y Gymdeithas yn hynod falch fod Arfon Gwilym a Sioned Webb wedi derbyn ein gwahoddiad i ymuno â ni yn y cinio ac i'n diddanu wedi hynny yn eu ffordd unigryw eu hunain. Mae'r ddau yn ffigurau cenedlaethol adnabyddus ym myd cerdd yng Nghymru, Arfon yn ganwr gwerin o'r radd flaenaf a Sioned, ei wraig, yn gyfeilydd ddawnus ac uchel ei pharch ledled ein gwlad. Cawsom awran ddifyr tu hwnt gan y ddau, gydag Arfon yn canu amrywiaeth o ganeuon traddodiadol, rhai ohonynt yn ysgafn a doniol iawn, i gyfeiliant swynol Sioned ar y delyn. Roedd eu cyflwyniad yn hamddenol a chartrefol ac eto'n broffesiynol a meistrolgar, ac nid oes amheuaeth nad oedd pawb wedi mwynhau'r arlwy a gafwyd gan y ddau.